W 2
2213 962 TJ 685 (Sal) (5)

# CAN YSTYRIOL

SEF

# AMGYLCHIADAU SEION

## MEWN 'STAD O BROFIAD.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

A GYFANSODDWYD GAN
DAVID JONES, MYNYDD BACH.

Gwerthfawr feibion SEION, a chystal ag aur pûr; pa fodd y cyfrifwyd hwynt fel 'stenau pridd, gwaith dwylo'r crochenydd! GALARNAD iv. 2.

*Aberystwyth: Argraffwyd gan James a Williams, dros D. A.*--1810

FY mrodyr mwyn Crist'nogol, cariadol, duwiol, doeth,
Fy meddwl a fy myfyr câf wneuthur i chwi 'n noeth,
Am Amgylchiadau Seion, a'i throion trymion trist,
Yr hon oedd o'r dechreuad yn forwyn bur i Grist.
Doethineb mawr y nefoedd a drefnodd iddi ymdroi
Dan amryw orthrymderau, o'r fath oedd e'n ei roi,
I'w phrofi ac i'w chynnal dan dònau 'r anial dir,
A chystudd mawr a ddygodd tros amryw oesoedd hîr.
Rhai miloedd o eneidiau a nofiai i'r nefoedd fry,
Trwy waed a thân gorchestol, er gwaetha'r diafol dû,
Eu berwi, llosgi, blingo, eu rhwygo a'u llifo'n fyw,
Mewn cystudd mawr ac atgas cyn cyrhaedd dinas Duw.

Yn raddol bob ychydig, y bendigedig Iôr,
Yr hwn sy'n llywodraethu y nef, y ddae'r, a'r môr,
A rwyllodd y cymylau mewn manau yn y byd,
A Seion hithau gododd o'r llŵch y llechodd cy'd.

Nid oedd hi etto ond isel a thawel yn ei thŷ,
A'i chadach am ei chefen un wêdd a sachlen ddû;
Wrth feddwl am yr adfyd a'i gofid cyfyng caeth,
Y modd y cawsa'i maeddu a'i saethu â llawer saeth.

Tra'r oedd hi mewn cadachau yn rhodio'i llwybrau'n llon,
Ei bywyd oedd mor hardded a'r lili fry 'n y fron;
Ei thegwch a'i phrydferthwch o fewn oedd fwy na'i gwêdd.
Gan ddysgwyl am ei Phriod i ddyfod iddi a hêdd.

Bu'n hîr yn gwisgo'i galar, heb iddi fawr o gŵyn,
A hâd y ddraig uffernol oedd etto'n dala'r ffrwyn,
Rhag iddi gael ei rhydd-did na'i bywyd wrth ei bôdd,
Na dangos un o'i ffrwythau lle gwelai'r byd ar go'dd.

Ond dydd ymwared Seion oedd beunydd yn neshau,
Trwy ragluniaethau rhyfedd hi gafodd ei ryddhau,
Gan wneuthur rhai breninoedd a breninesau clŷd,
Yn fôdd i faethu Seion, a'i chodi fynu o'i chrŷd.

A phan cyfododd Seion o'i throion ar ei thraed,
Anghofiodd am ei hagwedd yn gorwedd yn ei gwaed;
Dechreuodd ymddyrchafu a chwythu yn dra chwith,
Ymwasgu â phob cymmysgedd a rhinwedd dim ond rhith.

Yn ysgawn ymddiosgodd o'i gwisgo'dd hardd a chlyd
Ac aeth heb attal etto i gyd-ymffurfio â'r byd;
Na ellir gwahaniaethu mo honi heddyw'n hawdd,
Er cymmaint mae ei gwylwyr yn galw ac yn gwawdd.

Pan gafodd Seion sanctaidd ei hafaidd ryfedd rôdd,
Aeth mewn sandalau arian yn druan, ac a drôdd
Oddiwrth ei chariad cyntaf, i gant o lwybrau traws,
A'i bywyd yn wradwyddus, a hithau'n ddrwg ei naws

Mae'n awr yn falch, yn fydol, yn gnawdol, ac yn grin,
Yn foethus iawn i w maethu, heb fawr yn medru thrîn;
Mŷn gael ei hun yn enwog ac yn gyfoethog iawn,
A hithau dlawd, yn druan, yn llwm, ac nid yn llawn.

Ystyriwn fod yr olwyn yn dirwyn ar ei dro,
Heb orphwys mewn seguryd un funud arno fo;
A than amgylchu'i gylchedd, pwy ŵyr pa wêdd y daw,
Ar rai o dylwyth Seion sy' erioed heb brofi braw.

Pob trawsedd a digasedd a chwerwedd ydyw'r chwyn,
Casineb sûr a salw sy'n llanw bro a bryn,
Trwy holl balasau Seion, ac aml sôn y sydd,
Gael hunan fawr yn flaenor, fel cawr i gario'r dydd.

Mae'n awr yn hy ddibryder a'i hyder arni hun,
Yn gorwedd ar ei sorod a'i gwaddod gwael a'i gwîn;
Ei sŵn yn fwy na'i sylwedd ar hafaidd ddofaidd ddydd
Y câs yn fwy na'r cariad, y beiau'n fwy na'r budd.

Pe deuai dydd o brofiad ar fagad ag y sydd
A'u zêl yn fawr dros Seion yn awr ys llawer dydd,
A gorfod rhoddi'r bywyd neu'r golud llwyr i'r llawr,
Mae achos i bryderu na cheid o'r rhei'ny fawr.

Yn awr, fy mrodyr anwyl, y gorchwyl mwya'i bwys
I bawb o deulu Seion i 'mosod arno'n ddwys,
Yw ceisio cyrhaedd sicrwydd o'n hawl o'r nefoedd fry
Y trysor gwerthfawrocaf yw hwn, mi dd'weda'n hy'.

Na chym'red neb mo'i dwyllo âg amryw dybiau gwael
Ac na thybyged ereill nad yw'r fath beth i'w gael;
Mi wn ei fod yn sicr gan rai o'r seintiau sydd
Yn awr yn profi llwyddiant a ffyniant ar eu ffydd.

Tyr'd dithau, gristion egwan, sy'n druan ac yn drist,
Heb gyrhaedd cyflawn olwg hyd etto o'th hawl yn Nghrist,
Cais rodio'r ffordd yn uniawn, bydd ffyddlon yn ddiffael
Er lleied yw'th gysuron, mae'r goron i ti gael.

Ac ynteu'r dyn rhagrithiol, anneddfol, gwrol, gwych,
B'lebyna' byddo'n nythu, mae'n gyru am gario'r rhych
Fe farna'i frawd yn sydyn am ryw frycheuyn bach,
Heb wel'd mo'i drawst ei hunan, mae hwn erioed yn iach

Dwys gynghor ein Hiachawdwr a'n Prynwr llon, nid
llai,
Bob un i'w holi ei hunan, yn fuan am ei fai:
Nôd eglur yw o ragrith, anhywaith, ddiffaith ddyn,
Ei fod e'n barnu ereill, a chyfiawnhau ei hun.

Meddyliwn bawb yn wastad daw' cennad angeu'n hôl,
Rhaid myn'd o flaen y frawdle bob un, y call a'r ffôl:
Y call a gaiff ei ollwng i mewn i'r drws heb drais,
A'r ffôl ei gauad allan, er maint ei lêf a'i lais.

Ac yma llwyr wa'niaethir y gwenith gloyw'n glud,
Oddiwrth yr ûs a'r efrau sy'n awr yn tyfu 'nghyd:
Y gwenith â i'r 'sgubor yn drysor gwerthfawr gwych
A'r ûs a'r efrau i'w llosgi mewn ffwrn o uffernol ddrych

Os gofyn neb yn un-lle pwy roddai hyn ar gân,
Hên gâr a chyfaill ffyddlon i Seion, forwyn lân;
Gan attolygu llwyddiant a ffyniant ar y ffydd,
A chynnydd ar ei chariad yn wastad nôs a dydd.

Duw gadwo *Siors* y trydydd i lywodraethu'n hîr,
Rhag twyll a brâd yr anwir, ag sydd yn gwadu'r
gwir,
I lywodraethu *Brydain, Iwerddon*, a phob lle,
Y rhoddwyd ef yn frenin, dewisol, duwiol, de'.

Yr Arglwydd a fendithio ei holl freninol waed,
A'r Arglwydd Dduw a sathro'i elynion dan ei draed;
Ac hefyd, Duw fo'n darian y'mhob man uwch ei ben,
A d'weded pob rhyw Gristion o'i galon byth, *Amen*.

DIWEDD.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY